Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

0800 052 0130
dwrcymru.com

This is not a circular
Owner/Occupier

October 2021
Ref: CAP/CV/ElanValley/102021

Hello

Our works in the Elan Valley

As you may be aware, we're currently carrying out essential works in the Elan Valley and we wanted to tell you more about it. In this letter, you will find information about the works on the Devil's Gulch, Penbont Statutory Plants Health Notice (SPHN) and at Craig Goch. As part of our approach to go paperless, future updates will be posted on the In Your Area section of our website as well as the investment page we have created on our website.

Devil's Gulch

The Gulch has been closed due to rockfalls which has made it unsafe to pass through. We have had to close the bridleway to protect visitors and animals, and as agreed with Welsh Government, this closure will remain in place until we have completed work which will allow people to pass through the Gulch again safely.

We are currently carrying out investigation works to allow us to design the best solution for the Gulch. The investigation and planning phase will take approximately a year to complete due to the complexity of the work required. We are currently planning to start that work in the Autumn of 2022.

Penbont Statutory Plants Health Notice

Natural Resources Wales (NRW) has served notice on us that we need to remove from the Estate diseased larch which have been infected and is affecting trees in the Penbont area. The work to remove them will begin later this Autumn.

The timber from the felled trees will be sold to local markets and used in the construction, fencing and biomass markets.

We plan to create a car park opposite the site to allow for the felling and timber to be stored. This will then become a permanent facility for visitors to the area to use in the future. This car park will be a great location for a picnic with reservoir views or serve as a car parking location to enjoy a circular walk through Penbont Woods & Pen y Garreg dam.

We're not-for-profit. Every single penny we make goes back into looking after your water and environment. You can contact us in Welsh or English.

Rydym yn gwmni nid-er-elw. Mae pob ceiniog a wnawn yn mynd i ofalu am eich dŵr a'ch amgylchedd. Cysylltwch a ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf (2366777)
A limited Company registered in Wales
Cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestu yng Nghymru:

Fortran Road St Mellons Cardiff CF3 0LT

Dŵr Cymru
Welsh Water

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

0800 052 0130
dwrcymru.com

Craig Goch

Operating our dams to the highest safety standards is a priority for us and to ensure Craig Goch continues to operate safely we need to undertake some essential maintenance work. This includes work to the pipes and valves which form part of the dam.

Whilst we have managed to complete investigative work to the pipes and dams, our work to cleanse the pipes, which was meant to start in October has been delayed to Spring 2022. This is due to the heavy rainfall at the beginning of October which has raised the level of the reservoir, so it isn't safe for our contractors to work on that kind of project at the moment. The road closure which is currently in place should therefore be lifted by mid-October 2021.

Community Fund

If you're fundraising for projects to benefit the community, you could receive funding from Welsh Water up to a value of £1,000. For more information visit www.dwrcymru.com/Community-Fund.

Working during the Covid-19 outbreak

During this time, we will continue to follow Government guidelines and would like to thank customers for ensuring they maintain a safe distance from our colleagues. We know this is a very challenging time but please be assured that we are – and will continue – to do everything we can to continue providing our essential services.

More information

There are sometimes factors beyond our control that may delay or change the scope of work, but we'll always minimise any potential disruption where possible. To find out more visit www.dwrcymru.com/InYourArea. Any future updates will be posted on our website.

We'd like to say thank you for bearing with us while we carry out this work, and we'll be sure to get everything done as quickly as we can.

Yours sincerely

Camille Valmalle
Community Support Officer

We're not-for-profit. Every single penny we make goes back into looking after your water and environment. You can contact us in Welsh or English.

Rydym yn gwmni nid-er-elw. Mae pob ceiniog a wnawn yn mynd i ofalu am eich dŵr a'ch amgylchedd. Cysylltwch a ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf (2366777)
A limited Company registered in Wales
Cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestu yng Nghymru:

Fortran Road St Mellons Cardiff CF3 0LT

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

0800 052 0130
dwrcymru.com

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

Hydref 2021
Cyf: CAP/CV/ElanValley/102021

Helo 'na

Ein gwaith yng Nghwm Elan

Fel y gwyddoch chi, rydyn ni wrthi'n cyflawni gwaith hanfodol yng Nghwm Elan ac roeddem ni am rannu'r manylion â chi. Yn y llythyr hwn, cewch wybodaeth am ein gwaith yng Ngheunant y Diafol, ar Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol Penbont (SPHN) ac yng Nghraig Goch. Yn rhan o'n hymdrechion i fynd yn ddibapur, bydd unrhyw newyddion pellach yn ymddangos ar adran Yn Eich Ardal ein gwefan ac ar y dudalen fuddsoddiadau a grëwyd ar ein gwefan.

Ceunant y Diafol

Mae'r Ceunant wedi bod ar gau yn sgil cwymp, oherwydd y perygl y gallai creigiau pellach ddisgyn. Bu angen cau'r llwybr ceffylau er diogelwch ymwelwyr ac anifeiliaid, ac fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru, bydd y llwybr yn aros ar gau nes ein bod ni wedi cwblhau'r gwaith a fydd yn caniatáu i bobl basio trwy'r Ceunant yn ddiogel eto.

Rydyn ni wrthi'n cyflawni gwaith ymchwiliol a fydd yn ein galluogi ni i ddylunio'r ateb gorau ar gyfer y Ceunant. Bydd y gwaith ymchwilio a chynllunio'n cymryd rhyw flwyddyn i'w gwblhau am fod y prosiect yn un cymhleth. Ein bwriad ar hyn o bryd yw dechrau'r gwaith yn hydref 2022.

Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol Penbont

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi ein hysbysu ni fod angen clirio coed llarwydd afiach o'r Ystâd. Mae'r afiechyd yn effeithio ar goed yn ardal Penbont. Bydd y gwaith i glirio'r rhain yn dechrau yn ddiweddarach yn yr hydref.

Caiff y pren o'r coed yma ei werthu i farchnadoedd lleol a'i ddefnyddio at ddibenion adeiladu, codi ffensys a biomas.

Ein bwriad yw creu maes parcio gyferbyn â'r safle er mwyn caniatáu ar gyfer cyflawni'r gwaith a storio'r coed. Daw hyn yn gyfleuster parhaol i ymwelwyr â'r ardal ei ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd y maes parcio yma'n lle gwych i fwynhau picnic â golygfeydd dros y gronfa, neu gall fod yn lle da i barcio wrth fynd am dro cylchol trwy Goedwig Penbont a thros argae Pen y Garreg.

We're not-for-profit. Every single penny we make goes back into looking after your water and environment. You can contact us in Welsh or English.

Rydym yn gwmni nid-er-elw. Mae pob ceiniog a wnawn yn mynd i ofalu am eich dŵr a'ch amgylchedd. Cysylltwch a ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf (2366777)
A limited Company registered in Wales
Cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestu yng Nghymru:

Fortran Road St Mellons Cardiff CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

0800 052 0130
dwrcymru.com

Craig Goch

Mae gweithredu ein hargaeau yn ôl y safonau uchaf o ran diogelwch yn flaenoriaeth i ni, ac er mwyn sicrhau bod Craig Goch yn parhau i weithredu'n ddiogel mae angen i ni gyflawni ychydig o waith cynnal a chadw hanfodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar y pibellau a'r falfiau sy'n rhan o'r argae.

Er ein bod ni wedi llwyddo i gwblhau'r gwaith ymchwilio ar y pibellau a'r argaeau, mae ein gwaith i lanhau'r pibellau, a oedd i fod i ddechrau ym mis Hydref, wedi cael ei ohirio tan wanwyn. 2022. Mae hynny oherwydd y glaw mawr a welwyd yn gynnar ym mis Hydref sydd wedi codi lefel y gronfa ac nid yw'n ddiogel i'n contractwyr weithio ar brosiect o'r math yma ar hyn o bryd. Felly dylai'r ffordd, sydd ar gau ar hyn o bryd, ailagor erbyn canol Hydref 2021.

Y Gronfa Gymunedol

Os ydych chi'n codi arian ar gyfer prosiect er budd y gymuned, gallech gael gwerth £1,000 o gyllid gan Ddŵr Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.dwrcymru.com/Cronfa-Gymunedol

Gweithio yn ystod argyfwng Covid-19

Byddwn ni'n parhau i ddilyn canllawiau'r Llywodraeth yn ystod y cyfnod hwn, a hoffem ddiolch i'n cwsmeriaid am sicrhau eu bod nhw'n cadw pellter diogel oddi wrth ein cydweithwyr. Rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n amser anodd iawn, ond gallwn eich sicrhau chi ein bod ni'n gwneud popeth y gallwn ni i ddarparu ein gwasanaethau hanfodol – ac y byddwn ni'n parhau i wneud hynny.

Gwybodaeth bellach

Mae ffactorau'n codi o bryd i'w gilydd sydd y tu hwnt i'n rheolaeth a gallant ohirio neu newid cwmpas y gwaith, ond fe wnawn ein gorau glas i darfu cyn lleied â phosibl arnoch bob tro. I gael rhagor o fanylion ewch i www.dwrcymru.com/YnEichArdal. Byddwn ni'n rhannu'r holl newyddion am y gwaith ar ein gwefan.

Hoffem ddiolch i chi am eich amynedd yn ystod y gwaith yma, a byddwn ni'n sicr o gwblhau'r gwaith cyn gynted ag y gallwn ni.

Yn gywir

Camille Valmalle
Swyddog Cymorth Cymunedol

We're not-for-profit. Every single penny we make goes back into looking after your water and environment. You can contact us in Welsh or English.

Rydym yn gwmni nid-er-elw. Mae pob ceiniog a wnawn yn mynd i ofalu am eich dŵr a'ch amgylchedd. Cysylltwch a ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf (2366777)
A limited Company registered in Wales
Cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestu yng Nghymru:

Fortran Road St Mellons Cardiff CF3 0LT